

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Gwasanaeth Ieuentid- NEETS

Lluniwyd yr hysbysiad hwn yn unol â Rheoliadau Cyffredinol y Ddeddf Diogelu Data a deddfwriaeth berthnasol.

Y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth

Lisa Richards – Swyddog Diogelu Data

Sam Bishop – Swyddog Datgelu Data a Chofnodion

Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful,
CF47 8AN Data.Protection@merthyr.gov.uk
01685 725000



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Dyddiad Creu:	25 Mai 2018
Adran â Chyfrifoldeb:	Tîm Llesiant Cymunedol
Rheolwr â Chyfrifoldeb:	Shirley Harrall
Cyfeiriad:	Uned 5, Pentrebach, Merthyr Tydfil, CF48 4TQ

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn darparu gwybodaeth am sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn casglu a phrosesu eich data personol pan fyddwch yn defnyddio ein gwasanaethau NEET. Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful sy'n gyfrifol am benderfynu sut yr ydym yn cadw ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch chi. O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae'n ofynnol ein bod yn eich hysbysu o'r wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

Nid yw'r hysbysiad hwn yn ffurfio rhan o unrhyw gontract i ddarparu gwasanaethau. Mae'n bosibl y byddwn yn diweddarar'r hysbysiad hwn ar unrhyw adeg, os fyddwn yn gwneud hynny, byddwn yn sicrhau fod unrhyw gopi diwygiedig o'r hysbysiad hwn ar gael i chi cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen yr hysbysiad preifatrwydd hwn ar y cyd â'n Polisi Safonau Preifatrwydd a'n hysbysiad preifatrwydd llawn sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth fanwl am y modd yr ydym yn prosesu data. Gellir dod o hyd iddo ar ein gwefan.

Mae'r hysbysiad hwn yn benodol berthnasol i'r Gwasanaeth NEET; (Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth neu Asiantaeth Aml Hyfforddiant).

1. GWYBODAETH BWYSIG A PHWY YDYM NI

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw'r rheolwr a'r Cyngor sy'n gyfrifol am eich data personol. Mae'r Cyngor yn cynnwys gwahanol adrannau a gallwch gael manylion amdanynt ar ein gwefan. Wrth gyfeirio at y Gwasanaeth rydym yn cyfeirio at y Gwasanaeth Ieuentid sy'n gyfrifol am brosesu eich data a fydd yn glir i chi wrth i chi ddefnyddio'r gwasanaeth hwn.

Mae'r hysbysiad hwn yn gymwys i ddefnyddwyr ein Gwasanaeth Ieuentid sy'n cynnwys pobl ifanc hyd at 25 oed. Mae'r gwasanaethau a fanylir oddi fewn i'r hysbysiad hwn yn cael eu cynnig i'r unigolion hynny nad ydynt mewn addysg na chyflogaeth ar hyn o bryd. Mae'r Gwasanaeth Ieuentid yn gweithredu o nifer o leoliadau ledled y fwrdeistref.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi penodi Swyddog Diogelu Data a gallwch gysylltu â'r swyddog gan ddefnyddio'r manylion canlynol:

Mrs. Lisa Richards (Swyddog Diogelu Data)

Cyfeiriad: Y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Y Ganolfan Ddinesig
Stryd y Castell
Merthyr Tudful
CF47 8AN

E-bost: data.protection@merthyr.gov.uk

Ffôn: 01685 725000

Ffacs: 01685 725060

CF47 8AN

2. Y DATA YR YDYM YN EI GASGLU AMDANOCH CHI

Gallwn gasglu, defnyddio, storio a throsglwyddo gwahanol fathau o ddata personol ynghylch ein darpar ddisgyblion fel y ganlyn:

- Data hunaniaeth a chyswllt fel enw, dyddiad geni, rhyw, rhif ffôn a chyfeiriad er mwyn cysylltu â'n defnyddwyr gwasanaeth mewn perthynas â'r gwasanaeth y maen nhw'n cyfranogi ynddo.
- Data ariannol, fel incwm teuluol, data budd-daliadau er mwyn cynorthwyo ein defnyddwyr gwasanaeth i gael y cymorth ariannol sy'n ofynnol ganddynt.
- Data cyflogaeth ac addysg fel yr ysgol rydych yn ei mynychu neu a ydych yn gweithio ar hyn o bryd.
- Data ffordd o fyw fel eich crefydd neu ethnigrwydd ar gyfer monitro cyfleoedd cyfartal.
- Data iechyd – rydym yn gofyn am wybodaeth sylfaenol i sefydlu a oes yna reswm meddygol pam nad ydych yn gallu ymgysylltu ag addysg a chyflogaeth.
- Data troseddu mewn achlysuron pan fyddwch chi wedi'n hysbysu ni am unrhyw euogfarnu troseddol neu pan fyddwn wedi dyfod yn ymwybodol o broblem a allai effeithio ar ddiogelwch ein staff.

Rydym yn esbonio'r gwahanol ddulliau a ddefnyddir i gasglu data amdanoch chi yn yr hysbysiad hwn.

3. SUT YR YDYM YN DEFNYDDIO EICH DATA PERSONOL

Byddwn yn casglu eich data personol mewn nifer o ffyrdd, yn gyntaf oddi wrthych chi, sef ein defnyddiwr gwasanaeth, yn uniongyrchol. Fodd bynnag gallem ni hefyd dderbyn cyfeiriadau i mewn i'n gwasanaeth oddi wrth eich rhieni neu ofalwr, oddi wrth eich ysgol neu goleg os oes ganddyn nhw reswm i gredu eich bod mewn risg o ddyfod yn 'NEET'. Ceir achlysuron pan all Adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor gyfeirio, ond dim ond pan fydd y gyfraith yn caniatáu hynny y caiff hynny ei wneud. Rydym yn gweithredu Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf a all hefyd drefnu cyfeirio at ein gwasanaeth ar eich rhan, gall Gyrfa Cymru a sefydliadau eraill y trydydd sector fel GGMT/VAMT hefyd drefnu cyfeirio ar eich rhan.

Caiff cyfeirio ei drefnu gan ddefnyddio'r ffurflenni gwasanaeth ieuenctid dynodedig a'u cyflwyno i'r tîm sydd wedi ei leoli yng Nghanolfan Dysgu Cymunedol, Pen-Y-Dre.

Mae'r wybodaeth a dderbyniwn yn cael ei throsglwyddo i'n system electronig a elwir yn CAPITA One, sydd hefyd yn cael ei defnyddio fel pecyn cymorth dynodiad cynnar. Mae mynediad i'r system hwn yn gyfyngedig, dim ond personél awdurdodedig all weld, diwygio neu ddileu eich data.

Dim ond ar gyfer rhoi'r gwasanaeth sy'n ofynnol i chi y byddwn yn defnyddio'ch data personol. Mae hyn er mwyn sicrhau ein bod ni'n gallu sicrhau Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant i chi. Byddwn yn rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen arnoch yn ystod yr amser a dreuliwch yn y Gwasanaeth. Byddwn yn sicrhau eich bod yn derbyn gwybodaeth berthnasol o ran sut allwn ni eich cefnogi yn ystod cofrestru.

Dim ond pan fydd y gyfraith yn caniatáu hynny y byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth bersonol. Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol o dan yr amgylchiadau canlynol:

1. Pan fyddwn wedi derbyn eich caniatâd i ddarparu gwasanaethau penodol i chi fel ymateb i ac ystyried unrhyw gwynion wnaed gennych chi neu eich cynrychiolydd o ran y gwasanaeth rydych wedi ei dderbyn.
2. Pan fydd angen i ni gydymffurfio â goblygiadau cyfreithiol o dan y cyfreithiau canlynol
Deddf Dysgu a Sgiliau (2000)
Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid (Cymru) 2002
Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006
Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
3. Pan fo angen hynny er budd y cyhoedd neu at ddibenion swyddogol fel darparu ffurflenni ystadegol i Lywodraeth Cymru yn unol â Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid 2013.
4. Pan fo hynny'n angenrheidiol er ein buddion cyfreithlon (neu rhai trydydd parti) a'ch buddion chi a hawliau sylfaenol nad ydynt yn damsang y buddion hynny megis hyrwyddo ffordd o fyw iach ac arferion gwario da.

4. SUT YR YDYM YN RHANNU EICH DATA PERSONOL

Gallwn rannu eich data personol ar draws y Gwasanaeth Ieuenctid er mwyn eich darparu â'r gefnogaeth sy'n ofynnol gennych, byddwn hefyd yn rhannu eich data yn fewnol ar draws Adrannau eraill y Cyngor ac â thrydydd partiön allanol hefyd sy'n cynnwys:

Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg ac ADY
Gwasanaeth Llesiant Cymdeithasol
Gwasanaethau Plant
Cymorth Aml Ymyrraeth - Tîm o Gwmpas y Teulu
Rhaglen Cefnogi Rhianta
Pontio i Gyflogaeth
Pontydd i mewn i Waith
Ysgol Uwchradd Afon Taf

Ysgol Uwchradd Cyfarthfa
Ysgol Uwchradd Pen-Y-Dre
Ysgol Uwchradd yr Esgob Hedley
Ysgol Arbennig Greenfield
Gyrfa Cymru
Coleg Merthyr Tudful
Hyfforddi Rathbone
Consortiwm Hyfforddi Tudful
Dysgu Wrth Weithio Coleg Merthyr Tudful
Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful
Sefydliad Gellideg
Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc Cwm Taf
Include/Cynnwys (Prosiect Newid)
People Plus Group Limited
Llamau
Prosiect VIVA
Grŵp Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf <<http://www.gellideg.net/what-we-do/communities-first.html>>

Mae'r Gwasanaeth Ieuencid wedi ymuno â Phrotocol Rhannu Gwybodaeth gyda'r partïon priodol sy'n manylu sut y caiff y wybodaeth ei rhannu. Mae hyn ar gael ar wefan Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru.

5. AM BA MOR HIR FYDDWN NI'N DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH A'I CHADW'N DDIOGEL

Dim ond am mor hir ag sy'n angenrheidiol y byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol er mwyn cyflawni'r dibenion y gwnaethom ei chasglu, gan gynnwys dibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, ariannol neu adrodd yn ôl. At ddibenion Gwasanaethau NEET byddwn yn cadw'r wybodaeth hon am 25 mlynedd o'ch dyddiad geni neu am 10 mlynedd ar ôl cau'r ffeil.

Mae manylion cyfnodau cadw ar gyfer gwahanol agweddau o'ch gwybodaeth bersonol ar gael yn ein Polisi Rheoli Cofnodion sydd ar gael ar ein gwefan (www.merthyr.gov.uk) neu oddi wrth y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth sydd â'u manylion cyswllt ar frig yr hysbysiad hwn.

Rydym wedi rhoi mesurau diogelwch priodol yn eu lle i atal eich gwybodaeth bersonol rhag mynd ar goll yn ddamweiniol, rhag cael ei defnyddio neu rhag cael mynediad ati mewn modd diawdurdod, neu ei haddasu neu ei datgelu. Yn ychwanegol, rydym yn cyfyngu mynediad at eich gwybodaeth bersonol i'r cyflogeion hynny, asiantaethau, contractwyr a thrydydd partïon sydd angen gwybod ar gyfer busnes. Dim ond yn ôl ein cyfarwyddyd ni y byddan nhw'n prosesu eich gwybodaeth bersonol a byddant yn amodol ar ddyletswydd cyfrinachedd.

Rydym wedi gosod gweithdrefn mewn lle i ddelio ag unrhyw dorcyfraith a ddrwgdybir o ran diogelwch data a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr cymwys o unrhyw dorcyfraith a ddrwgdybir ble y mae gofyniad cyfreithiol i ni wneud hynny.

6. EICH HAWLIAU CYFREITHIOL

Mewn rhai amgylchiadau, mae gennych hawliau o dan gyfreithiau diogelu data sy'n ymwneud â'ch

data personol. Mewn rhai amgylchiadau, yn gyfreithiol gallai fod gennych yr hawl i'r canlynol:

- **Cais am fynediad** at eich gwybodaeth bersonol (a elwir yn “cais am fynediad at bwnc data”). Mae hyn yn eich galluogi chi i dderbyn copi o'r wybodaeth bersonol yr ydym yn ei chadw amdanoch chi a gwirio ein bod yn ei phrosesu'n gyfreithlon.
- **Cais am gywiro'r** data personol rydym yn ei chadw amdanoch chi. Mae hyn yn eich galluogi chi i gywiro unrhyw wybodaeth anghyflawn neu anghywir yr ydym yn ei chadw amdanoch chi.
- **Cais am ddileu** eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi chi i ofyn i ni ddileu neu symud unrhyw wybodaeth bersonol, pan nad oes yna reswm da dros barhau i'w phrosesu. Mae hefyd gennych yr hawl i ofyn i ni ddileu neu symud eich data personol ar ôl i chi ddefnyddio eich hawl i wrthwynebu ei brosesu (gweler isod).
- **Gwrthwynebu prosesu** eich data personol pan fyddwn yn dibynnu ar ddiddordeb cyfreithiol (neu rhai trydydd parti) a bod yna rywbeth am eich sefyllfa bersonol sy'n eich gwneud chi eisiau gwrthwynebu'r prosesu ar y sail honno. Mae hefyd gennych yr hawl i wrthwynebu pan rydym yn prosesu eich data personol at ddibenion marchnata penodol.
- **Cais i gyfyngu ar brosesu** eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi chi i ofyn i ni atal prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch chi, er enghraifft os ydych am i ni sefydlu ei chywirdeb neu'r rheswm dros ei phrosesu.
- **Cais trosglwyddo** eich gwybodaeth bersonol i barti arall.

Mae gennych hefyd yr hawl i gwyno ar unrhyw adeg i'r Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth, sef awdurdod goruchwyllo'r DU ar gyfer materion diogelu data.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru)

Yr 2ail Lawr

Ffôn: 029 2067 8400

Ffacs: 029 2067

8399

Tŷ Churchill

E-bost: casework@ico.org.uk

Rhodfa Churchill

Caerdydd

CF10 2HH

7. MANYLION PELLACH

Os ydych yn edrych am ragor o wybodaeth ynghylch y modd yr ydym yn prosesu eich data personol, gan gynnwys diogelu data, cadw data a phrosesu cyfreithiol, edrychwch ar ein polisi preifatrwydd llawn.